

# HERITAGE NEWS

## NEWYDDION TREFTADAETH

**BLAENAVON WORLD HERITAGE SITE NEWSLETTER ISSUE 26 SUMMER 2018**  
**CYLCHLYTHYR SAFLE TREFTADAETH Y BYD BLAENAFON RHIFYN 26 HAF 2018**

## Celebrate Blaenavon Then and Now!

### Dathlu Blaenafon Ddoe a Heddiw!

**Blaenavon World Heritage Day returns on Saturday 30 June don't miss it!**

Visit Blaenavon Heritage Town from 11am – 4pm for a fun packed day of family entertainment. This year's event includes a variety of activities including climbing wall, street entertainers, Greenmeadow Community Farm and Punch and Judy. Throughout the day enjoy a traditional Victorian fun fair, dancers, live music, various craft stalls and don't forget to pop into the shops in town!

As always the highlight of the day will be the Heritage Costume Parade which starts at 1.00pm from the top of Broad Street and proceeds through the town. Malarky Arts will be working with local school children to create costumes and banners. The theme for this year's parade is Blaenavon Then and Now with an emphasis on Blaenavon's influential women, its sporting achievements and religion. Anyone wishing to join in with the parade, especially sports and community groups, are welcome to do so.

For more information please contact the World Heritage Centre on 01495 742333 or [www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

**Mae Diwrnod Treftadaeth y Byd Blaenafon yn dychwelyd ar ddydd Sadwrn 30 Mehefin felly peidiwch â'i fethu!**

Dewch i Dref Treftadaeth Blaenafon o 11am - 4pm am ddiwrnod llawn hwyl o adloniant teuluol. Mae digwyddiad eleni yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys wal ddringo, difyrwyr stryd, Fferm Gymunedol Greenmeadow a Phwnsh a Jiwdi. Drwy gydol y dydd mwynhewch ffair draddodiadol o gyfnod Victoria, dawnswyr, cerddoriaeth fyw, stondinau crefft o amrywiol a pheidiwch ag anghofio picio i mewn i'r siopau yn y dref!

Yn ôl yr arfer, uchafbwynt y diwrnod fydd yr Orymdaith mewn Hen Wisgoedd, sy'n cychwyn am 1.00pm o ben uchaf Heol Lydan ac yn ymlwybro trwy'r dref. Bydd Malarky Arts yn gweithio gyda phlant ysgol lleol i greu gwisgoedd a baneri. Thema'r orymdaith eleni yw Blaenafon Ddoe a Heddiw gyda phwyslais ar fenywod dylanwadol o Flaenafon, cyflawniadau chwaraeon a chrefydd y dref. Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r orymdaith, yn enwedig grwpiau chwaraeon a chymunedol.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Treftadaeth y Byd ar 01495 742333 neu [www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)



**Dawns ar y Mynydd – Dance on the Mountain**  
**21 July 2018**

**Dawns ar y Mynydd – 21 Gorffennaf 2018**  
Page/Tudalen 2

**Mischief Makers, the Summer Reading Challenge 2018!**

**Dyfeiswyr Direidi, Sialens Ddarllen yr Haf 2018!**  
Page/Tudalen 6

**Coming Events**  
**Digwyddiadau sydd i ddod**  
Page/Tudalen 12



[visitblaenavon.co.uk](http://visitblaenavon.co.uk)  
[www.fb.com/visitblaenavon](https://www.facebook.com/visitblaenavon)

## Dawns ar y Mynydd – Dance on the Mountain 21 July 2018

Dawnsyr Blaenafon, the Welsh Traditional dancers based in the Town, are organising their Dance Festival once again. It will be on Saturday 21 July 2018 in the Town Centre. This will be the 4th year the Festival has taken place and will be a bigger occasion than previous years. This year's Festival will take place in a Marquee situated in Market Street Car Park. Joining the mainstay groups of Alison Lee School of Dance, Dawnsyr Blaenafon, Maya Fusion Belly Dancers and The Blaina Line dancers will be a host of other teams and groups including Men of Sweyn's Eye Morris Dancers from Swansea and Fusion Dance break dancers from Newport making over 200 dancers in the Town Centre on the day. There will also be stalls around the dance Marquee and busking dance sites at Bethlehem Chapel and the Heritage Centre. Why not come along and enjoy the spectacle? Many of the teams will be inviting members of the public to participate. Who knows, you may even be tempted to join one of the groups. The fun starts at 11 am and finishes around 4.30pm.



## Dawns ar y Mynydd – 21 Gorffennaf 2018

Mae Dawnsyr Blaenafon, y grŵp dawnsio gwerin Cymreig traddodiadol sydd wedi'u lleoli yn y dref, yn trefnu eu Gŵyl Ddawns unwaith eto. Cynhelir yr ŵyl ar ddydd Sadwrn 21 Gorffennaf 2018 yng nghanol y dref. Dyma'r 4ydd flwyddyn iddynt gynnal yr ŵyl a'r tro yma fydd yr achlysur fwyaf erioed. Bydd yr ŵyl eleni, yn cael ei chynnal mewn Pabell fawr ym maes parcio Stryd y Farchnad. Yn ymuno â'r prif grwpiau, sef Ysgol Ddawns Alison Lee, Dawnsyr Blaenafon, Maya Fusion Belly Dancers a Dawnsyr Llinell Blaina, fydd lluo o dimau a grwpiau eraill yn cynnwys Men of Sweyn's Eye (Dawnsywr Morus) o Abertawe a Dawnsyr Stryd, Fusion Dance o Gasnewydd fydd yn golygu y bydd dros 200 o ddawnsyr yng Nghanol y Dref ar y diwrnod. Fe fydd stondinau wedi eu lleoli o amgylch y babelll fawr a manau dawnsio yng Nghapel Bethlehem a'r Ganolfan Dreftadaeth. Beth am ddod draw i fwynhau'r swae? Bydd nifer o'r timau yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan. Pwy a wŷr, efallai y cechwch eich temtio i ymuno ag un o'r grwpiau. Mae'r hwyl yn cychwyn am 11am ac yn gorffen tua 4.30pm.

## This summer, World Heritage Youth Ambassadors returns!



If you are aged 13-25 and want something to do this summer, then look no further!

World Heritage Youth Ambassadors returns this summer with a bang - every Tuesday afternoon 12pm – 5pm based at the Hwb youth club in Blaenavon.

Help us create habitats for protected species, go on cycling days out, take mountain walks, and of course trips to World Heritage Sites. Have fun, build skills, and gain confidence, and gain accreditations for your CV! Take on the challenge and give a youth voice to UK World Heritage and Blaenavon World Heritage Site.

Free to attend, but limited places available; registration essential. We are hosting an open day for those interested in attending the summer programme on Sunday 15th July 2018; 11am to 3pm.

If you are interested in joining the summer programme, or becoming an ambassador in the new academic year; register your interest by emailing [Ashleigh.taylor@thehwb.org.uk](mailto:Ashleigh.taylor@thehwb.org.uk)

For more details visit [www.visitblaenavon.co.uk/youthambassadors](http://www.visitblaenavon.co.uk/youthambassadors)

## Yr haf hwn mae Llysgenhadon Ifanc Treftadaeth y Byd yn dychwelyd!

Os ydych chi'n 13-25 oed ac eisiau rhywbeth i'w wneud yr haf hwn, yna nid oes angen i chi edrych ymhellach!

Mae Llysgenhadon Ifanc Treftadaeth y Byd yn dychwelyd yr haf hwn gyda bang - bob prynhawn dydd Mawrth 12pm - 5pm yng nghlwb ieuencid yr Hwb ym Mlaenafon. Helpwch ni i greu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau a warchodir, ewch ar ddyddiau beicio, teithiau cerdded mynydd, ac wrth gwrs, teithiau i Safleoedd Treftadaeth y Byd. Fe gewch hwyl, sgiliau adeiladu, ac ennill hyder, yn ogystal ag achrediau ar gyfer eich CV! Cymerwch yr her a chynrychioli'r yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a'r DU.

Ni chodir tâl mynychu, ond ychydig o leoedd sydd ar gael; felly rhaid cofrestru. Rydym yn cynnal diwrnod agored i'r rhai sydd â diddordeb mewn mynychu'r rhaglen haf, ar ddydd Sul 15 Gorffennaf 2018; 11am i 3pm.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r rhaglen haf, neu ddod yn llysgennad yn y flwyddyn academaidd newydd; cofrestrwch eich diddordeb trwy e-bostio [Ashleigh.taylor@thehwb.org.uk](mailto:Ashleigh.taylor@thehwb.org.uk)

I gael mwy o fanylion ewch i [www.visitblaenavon.co.uk/youthambassadors](http://www.visitblaenavon.co.uk/youthambassadors)



## World Heritage UK 2018 Conference, 'Setting the Scene for World Heritage'

UNESCO World Heritage Sites are the historic wonders of the World and the jewels in the crown of any nation. The United Kingdom is blessed with 31 of them and each year, World Heritage UK celebrates these gems with a conference. The theme for this year's event will be 'Setting the Scene for World Heritage', to take place at the Tower of London UNESCO World Heritage Site on the 8th and 9th October 2018.

Many of our World Heritage Sites are facing management issues, not only from within their boundaries, but from external pressures beyond, which can be hard to control. Here, delegates will look at the setting in which a World Heritage Site exists, issues with buffer zones and examining how best to deal with Outstanding Universal Value in the margins.

The conference will be delivered in association with Historic Royal Palaces and we expect to continue the success of previous years with an exciting programme of speakers and side events – perhaps a boat trip on the River Thames or a behind-the-scenes tour at the Tower of London. More details and registration arrangements to follow on [www.worldheritageuk.org](http://www.worldheritageuk.org)

© Chrispy images



## Cynhadledd Treftadaeth Byd y DU 2018, 'Rhoi Llwyfan i Dreftadaeth Byd'

Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yw rhyfeddodau hanesyddol y Byd a'r gemau yng nghoron unrhyw wlad. Mae'r Deyrnas Unedig wedi'i bendithio â 31 ohonynt a bob blwyddyn, mae Treftadaeth Byd y DU yn dathlu'r

gemau hyn drwy gynnal cynhadledd. Thema'r digwyddiad eleni fydd 'Rhoi Llwyfan i Dreftadaeth Byd', i'w chynnal yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, yn Nhŵr Llundain ar 8 a 9 Hydref 2018.

Mae llawer o'n Safleoedd Treftadaeth y

Byd yn wynebu problemau rheoli, nid yn unig o fewn eu ffiniau, ond o bwysau allanol y tu hwnt iddynt, a all fod yn anodd eu rheoli. Yma, bydd cynrychiolwyr yn edrych ar y lleoliad lle mae Safle Treftadaeth y Byd yn bodoli, materion yn ymwneud â chlustogfeydd ac edrych ar y ffordd orau o ddelio â Gwerth Cyffredinol Eithriadol yn yr ymylon.

Bydd y gynhadledd yn cael ei chynnal mewn cydweithrediad â Phalasaau Brenhinol Hanesyddol ac rydym yn disgwyl parhau â llwyddiant y blynyddoedd blaenorol gyda rhaglen gyffrous o siaradwyr a digwyddiadau ymylol - efallai taith cwch ar Afon Tafwys neu daith y tu ôl i'r llenni yn Nhŵr Llundain. Mwy o fanylion a threfniadau cofrestru i ddilyn ar [www.worldheritageuk.org](http://www.worldheritageuk.org)



## Big Pit National Coal Museum

There's plenty to do at Big Pit over the next coming months.

Give Dad a treat at our Father's Day FEASTival on 17 June, with local food and drink stalls, face painting, children's crafts and music by Ragsy (former contestant of The Voice), plus a free cuppa and welsh cake for Dad. Why not combine a visit to Big Pit on this special day with a free guided tour and half a beer at Rhymney Brewery and jump on board the Pontypool & Blaenavon Railway where Dads ride free\*. (\*With a full paying child/adult.)

Our free Toddler Time Sessions at the Play Lab on 20 June and 18 July, 1.30pm-2.45pm will be full of activities, toys and rhyme time.

Come and check out our new free Little Explorer Activity Boxes which are available every weekend and during school holidays.

These themed activity boxes are aimed at families with younger children and toys and books in them have been chosen to give lots of ideas for creative, imaginative play based on our collections at Big Pit.

We've got some interesting speakers lined up for our Autumn Lecture Series starting in September through to November. Check our website for dates and further details.

We've started a new Monthly Intergenerational Group in partnership with Blaenavon Town Council, bringing old and young people together through activities, events and information sharing. The group is open to everyone whether you want to come along to participate or volunteer.

## Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Mae digon i'w wneud yn Big Pit dros y misoedd nesaf.

Bydd cyfle i sbwylio Dad yn ein Gwledd Sul y Tadau ar 17 Mehefin, gyda bwyd a diod lleol, paentio wyneb, crefftiau i blant a cherddoriaeth gan Ragsy (o'r rhaglen The Voice), a phaned a phicen am ddim i Dad. Beth am gyfuno ymweliad â Big Pit gyda thaith am ddim drwy Fragdy Rhymni a mwynhau hanner peint braf o gwrw? Gallwch hefyd deithio

ar Reilffordd Pont-y-pŵl a Blaenavon, sydd am ddim i Dad\*. (\*Gyda phlentyn/ oedolyn yn talu pris llawn.)

Bydd ein sesiynau am ddim i blant bach yn y Pwll Chwarae ar 20 Mehefin a 18 Gorffennaf, 1.30-2.45pm, yn llawn gweithgareddau, teganau a hwyl.

Dewch i chwarae gyda'n Blychau Gweithgaredd sydd ar gael bob penwythnos ac yn ystod

gwyliau'r ysgol. Mae'r blychau hyn yn gyfle i deuluoedd sydd â phlant iau i chwarae yn greadigol a defnyddio'r dychymyg. Mae'r teganau a'r llyfrau wedi'u dewis yn seiliedig ar ein casgliadau yn Big Pit.

Bydd digon o siaradwyr diddorol yn ein cyfres Darlithoedd yr Hydref o fis Medi tan fis Tachwedd. Cadwch olwg ar ein gwefan am ddyddiadau a manylion pellach.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Misol Pontio'r Cenedlaethau mewn partneriaeth â Chyngor Tref Blaenavon, sy'n dod â'r hen a'r ifanc ynghyd trwy gyfrwng gweithgareddau, digwyddiadau a rhannu gwybodaeth. Mae'r grŵp ar agor i bawb, dewch draw i gymryd rhan neu i wirfoddoli.



## Mischief Makers, the Summer Reading Challenge 2018!

Looking for ideas to keep your children occupied over the holidays? The Reading Agency and libraries present Mischief Makers, the Summer Reading Challenge 2018!

The aim of the challenge is for children to read 6 library books of their choice over the summer and into mid-September. They can read any books they like: fact books, stories, joke books, picture books – audio and e-books count too! As long as they are borrowed from the library, they all count.

Mischief Makers celebrates the 80th anniversary of the much-loved comic, 'Beano'. Children will explore a map of Beanotown to find the mysterious buried treasure and become ultimate mischief makers! Dennis, Gnasher and friends will help them solve clues and collect free stickers and rewards, having lots of fun and adventures along the way!

The Summer Reading Challenge is great fun for children, but it also helps to ensure their reading skills don't dip over the school holidays. As one 10 year old boy from Blaenavon said last year: 'Before I wasn't reading very much, but now I'm reading a book in about a day! I LOVE THE READING CHALLENGE. I think everyone should take part.'

Children receive a medal, certificate and entry to a prize draw if they complete the Challenge.

## Dyfeiswyr Direidi, Sialens Ddarllen yr Haf 2018!

Chwilio am syniadau i ddi-ddanu eich plentyn dros y gwyliau? Mae'r Reading Agency a llyfrgelloedd yn cyflwyno Dyfeiswyr Direidi, Sialens Ddarllen yr Haf 2018!



© Dale Cherry for The Reading Agency, with thanks to Idea Store Watney Market

Nod y sialens yw i blant ddarllen 6 llyfr llyfrgell o'u dewis dros yr haf, hyd at ganol mis Medi. Gallant ddarllen unrhyw lyfrau y maen nhw'n eu hoffi: llyfrau ffeithiau, storiâu, llyfrau jôcs, llyfrau llun - ac mae llyfrau sain ac e-lyfrau yn cyfri hefyd! Cyn belled â'u bod yn eu benthyca o'r llyfrgell, maent i gyd yn cyfri.

Mae Dyfeiswyr Direidi yn dathlu pen-blwydd y clasur o gomic, sef 'Beano' yn 80 oed. Bydd plant yn archwilio map of Beanotown i ddod o hyd i'r trysor cudd dirgel sydd wedi ei gladdu a dod yn ddyfeiswyr direidi o fri! Bydd Dennis, Gnasher a'u ffrindiau yn eu helpu i ddatrys cliwiau a chasglu sticeri a gwobrau am ddim, cael llawer o hwyl ac anturiaethau ar hyd y ffordd!

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn hwyl i blant, ond mae hefyd yn helpu i sicrhau nad yw eu sgiliau darllen yn llithro yn ystod y gwyliau ysgol. Fel y dywedodd un bachgen 10 oed o Flaenafon y llynedd: 'Doeddwn i ddim yn darllen llawer o'r blaen, ond nawr rwy'n darllen llyfr mewn diwrnod! RWY'N CARU'R SIALENS DDARLLEN. Rwy'n credu y dylai pawb gymryd rhan.'

Mae'r plant yn derbyn medal, tystysgrif a chyfle i ennill raffl os ydynt yn cwblhau'r Sialens.

## World Famous Artist's Work at Blaenavon Museum

A portrait by the renowned American artist John Singer Sargent (1856-1925) is on display at the Blaenavon Community Museum. Sargent was a prolific portrait painter, who, during his career, produced about 900 oil paintings, over 2,000 watercolours, and many sketches and charcoal drawings. Among his famous clientele were American President Theodore Roosevelt and the Scottish novelist Robert Louis Stevenson. Sargent also served as a war artist for the British Ministry of Information during the Great War.

The charcoal sketch on show in Blaenavon was made in 1915 and depicts Lt. Col. Maurice Kennard M.C. (1883-1916), the highest-ranked Blaenavon-born soldier killed in the First World War. Lt. Col. Kennard was the commanding officer of the 18th Battalion, the Prince of Wales's Own West Yorkshire Regiment. He lost his life on the first day of the Battle of the Somme in July 1916, the bloodiest day in the history of the British army. Kennard was mentioned in dispatches three times and was highly respected by his men and his superiors.

The portrait can be seen at the Blaenavon Community Museum (based in the Workmen's Hall) Mon, Tue, Thu and Fri (10am-4pm) and Saturday (10am-1pm).



## Gwaith Arlunydd Byd-enwog yn Amgueddfa Blaenafon

Mae portread gan yr artist Americanaidd enwog John Singer Sargent (1856-1925) yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Gymunedol Blaenafon. Roedd Sargent yn arlunydd portreadau toreithiog, a wnaeth, yn ystod ei yrfa, gynhyrchu tua 900 o ddarluniau mewn olew, dros 2,000 o ddyfrlliwiau, a llawer o frasluniau a darluniau siarcol. Ymhlith ei gwsmeriaid enwog oedd Theodore Roosevelt, Arlywydd America a'r nofelydd Robert Louis Stevenson o'r Alban. Bu Sargent hefyd yn arlunydd rhyfel i Weinyddiaeth Wybodaeth Prydain yn ystod y Rhyfel Mawr.

Cafodd y braslun siarcol sy'n cael ei arddangos ym Mlaenafon ei gwblhau ym 1915 ac mae'n darlunio Lt. Col. Maurice Kennard M.C. (1883-1916), y milwr uchaf ei safle a aned ym Mlaenafon ac a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Lt. Col. Kennard

oedd swyddog arweiniol 18fed Bataliwn, Catrawd Gorllewin Swydd Gaerefrog Tywysog Cymru ei hun. Collodd ei fywyd ar ddiwrnod cyntaf Brwydr y Somme ym mis Gorffennaf 1916, y diwrnod mwyaf gwaedlyd yn hanes y fyddin Brydeinig. Cafodd Kennard ei enwi tair gwaith mewn cadlythyrau ac roedd gan ei ddynton a'i uwch swyddogion barch mawr tuag ato.

Gellir gweld y portread yn Amgueddfa Gymunedol Blaenafon (yn Neuadd y Gweithwyr) ar ddydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener (10am-4pm) a dydd Sadwrn (10am-1pm).



## X Factor Star to headline Blaenavon World Heritage Day

X Factor and Only Boys Aloud star Russel Jones will headline Blaenavon's World Heritage Day on Saturday 30 June.

Russell, aged 25 from Pontypool, was a hit with viewers on the show last year and will headline a full line up of music and dance acts.

The Revamps also return for the third year in a row, a band that will get the town rocking, always delivering a fun and lively performance.



## Seren rhaglen X Factor i ymddangos ar Ddiwrnod Treftadaeth y Byd Blaenafon

Mi fydd Russel Jones, seren X Factor ac Only Boys Aloud yn ymddangos yn Niwrnod Treftadaeth y Byd Blaenafon ar ddydd Sadwrn 30 Mehefin.

Fe wnaeth Russell, 25 oed, o Bont-y-pŵl daro'r nod gyda'r gwylwyr ar y sioe y llynedd ac eleni ef fydd un o'r prif atyniadau ymysg rhestr lawn o ddawnsywyr a chantorion.

Mae'r Revamps hefyd yn dychwelyd am y drydedd flwyddyn yn olynol; band fydd yn siŵr o rocio'r dref gyda'u perfformiad bywiog a difyr.



## Blaenavon Cinema Film Festival

Blaenavon Workmen's Hall Cinema will be holding a film festival with a Welsh flavour in the week leading up to this year's World Heritage Day. All the films will have a Welsh theme being about Wales or being set in Wales. They hope to include such classics as How Green was My Valley, Whistle Down the Wind, and the Citadel, together with more modern offerings such as Resistance by local author Owen Sheers, Very Annie Mary and Pride. The Festival will start on Saturday 23 June 2018 and finish on Saturday 30 June.

## Gŵyl Ffilmiau Sinema Blaenafon

Bydd Sinema Neuadd Gweithwyr Blaenafon yn cynnal gŵyl ffilmiau gyda naws Gymreig yn yr wythnos sy'n arwain at Ddiwrnod Treftadaeth y Byd eleni. Bydd gan yr holl ffilmiau thema Gymreig, naill ai oherwydd eu bod am Gymru neu wedi eu ffilmio yma, yng Nghymru. Maent yn gobeithio cynnwys clasuron fel How Green was My Valley, Whistle Down the Wind, a'r Citadel, ynghyd â chynnig mwy modern fel Resistance gan yr awdur lleol Owen Sheers, Very Annie Mary a Pride. Bydd yr Ŵyl yn dechrau

ddydd Sadwrn 23 Mehefin 2018 ac yn gorffen ddydd Sadwrn 30 Mehefin.



## Cinema revamp imminent!



Blaenavon Workmen's Hall's Management Board has been successful in achieving its goal of raising enough funds to upgrade the seats in Blaenavon's popular community cinema.

Chair of Blaenavon Workmen's Hall Limited, Rod Denley-Jones commented: "After the initial upgrade to the Cinema environment and the installation of the new projection equipment, almost two years ago, we quickly realised that the only thing letting the space down was the comfort of the seats. We realised that to compete with neighbouring cinemas we need to provide a slightly different offer and hope that new 'high end' comfortable seats offering more room, neck support and plush fabric will enhance the experience for our existing customers and attract new ones."

The Workmen's Hall Management Board hope to see work commence replacing the seats in the Autumn and until then will continue to develop the cinema programme to meet local people's needs. Anyone wishing to support the cinema either through volunteering time to run evening screenings or by contributing to the programming effort, should contact the Chair of the Board, Rod Denley-Jones on 01495 792661 or via [blaenavoncinema@gmail.com](mailto:blaenavoncinema@gmail.com)

Additionally, we hope to carry out improvements to the main building with new lighting and PA systems and changes to the circulation areas. Recently the snooker table was recovered and refurbished. Another upgrade to our facilities.

## Camau i adnewyddu'r sinema ar y gweill!

Mae Bwrdd Rheoli Neuadd Gweithwyr Blaenafon wedi llwyddo i gyflawni ei nod o godi digon o arian i uwchraddio'r seddi yn sinema gymunedol poblogaidd Blaenafon.

Dywedodd Rod Denley-Jones, Cadeirydd Neuadd y Gweithwyr Blaenafon Cyf.: "Ar ôl yr uwchraddiad cychwynnol i wedd y Sinema a gosod yr offer taflunio newydd, bron i ddwy flynedd yn ôl, sylweddolais yn gyflym mai'r unig beth oedd yn tynnu safon y lle i lawr oedd y seddau anghyffyrddus.

Fe wnaethom sylweddoli, er mwyn i ni gystadlu â sinemâu cyfagos, bod angen i ni gynnig rhywbeth bach gwahanol a'n gobaith yw y bydd y seddi cyfforddus 'crand' newydd sydd wedi eu gwneud o ffabrig coeth, yn cynnig mwy o le ac yn cynnal y gwddf, felly'n gwella profiadau'n cwsmeriaid presennol a denu rhai newydd."

Mae Bwrdd Rheoli Neuadd y Gweithwyr yn gobeithio gweld gwaith yn cychwyn ar y seddi yn yr hydref, a than hynny bydd yn parhau i ddatblygu rhaglen y sinema i ddiwallu anghenion pobl leol. Gall unrhyw un sy'n dymuno cefnogi'r sinema naill ai trwy wirfoddoli i ddangos ffilmiau gyda'r nos neu gyfrannu at y rhaglennu, gysylltu â Chadeirydd y Bwrdd, Rod Denley-Jones ar 01495 792661 neu ar [blaenavoncinema@gmail.com](mailto:blaenavoncinema@gmail.com)

Yn ogystal, rydym yn gobeithio gwneud gwelliannau i'r prif adeilad gyda system PA a goleuadau newydd, yn ogystal â newidiadau i'r cyntedd. Yn ddiweddar, cafodd y bwrdd snwcer ei adfer a'i ailwampio. Uwchraddiad arall i'n cyfleusterau.

## New Training Centre Opens in Blaenavon

The former town hall in Lion Street, one of the World Heritage Site's important historic buildings, was brought back into good use in January when it became home to Blaenavon-based company, RWA Business Consultancy. The business, which was established in 1992, is a consultancy firm that operates across the UK, offering compliance services, business solutions and e-learning opportunities to hundreds of companies.

Since moving into its new headquarters, RWA has been keen to increase face-to-face training as part of its services. To this end, the company successfully launched a new training facility in May. The first sessions, attended by ten local businesses, aimed to help organisations prepare for the implementation of the General Data Protection Regulation (GDPR).

Supporting small businesses is part of RWA's development plans. The company places considerable emphasis on networking with organisations of all sizes. It aims to share expertise and knowledge to foster economic growth and regeneration in the Blaenavon area and beyond.

RWA intends to deliver further training sessions and masterclasses across a range of business support areas in the near future. For more information about RWA's training facilities, please contact Peter Townsend on 01495 708036 or email [peter.townsend@rwagroup.co.uk](mailto:peter.townsend@rwagroup.co.uk)



## Canolfan Hyfforddi Newydd yn Agor ym Mlaenafon

Ym mis Ionawr, dechreuwyd aildefnyddio hen neuadd y dref ar Stryd y Llew, un o adeiladau hanesyddol bwysig Safle Treftadaeth y Byd, pan ddaeth yn gartref i Ymgynghoriaeth Busnes RWA, cwmni ym Mlaenafon. Mae'r busnes, a sefydlwyd ym 1992, yn gwmni ymgynghori sy'n gweithredu ledled y DU, gan gynnig gwasanaethau cydymffurfio, atebion busnes a chyfluoedd e-ddysgu i gannoedd o gwmnïau.

Ers symud i mewn i'r pencadlys newydd, mae RWA wedi bod yn awyddus i gynyddu hyfforddiant wyneb yn wyneb fel rhan o'i wasanaethau. I'r perwyl hwn, lansiodd y cwmni gyfleuster hyfforddi newydd ym mis Mai. Nod y sesiynau cyntaf, a fynychwyd gan ddeg busnes lleol, oedd helpu sefydliadau i baratoi ar gyfer gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae cefnogi busnesau bach yn rhan o gynlluniau datblygu RWA. Mae'r cwmni'n rhoi cryn bwyslais ar rwydweithio gyda sefydliadau o bob maint. Ei nod yw rhannu arbenigedd a gwybodaeth i feithrin twf economaidd ac adfywio yn ardal Blaenafon a thu hwnt.

Mae RWA yn bwriadu darparu sesiynau hyfforddi a dosbarthiadau meistr ymhellach ar draws ystod o feysydd cymorth busnes yn y dyfodol agos. I gael mwy o wybodaeth am gyfleusterau hyfforddi RWA, cysylltwch â Peter Townsend ar 01495 708036 neu e-bostiwch [peter.townsend@rwagroup.co.uk](mailto:peter.townsend@rwagroup.co.uk)



# Coming Events / Digwyddiadau sydd i ddod

## Father's Day FEASTival

17 June 11am – 4pm  
Big Pit National Coal Museum.  
Local food and drink stalls,  
demonstrations and talks. Free.

## Blaenavon Cinema Film Festival

23 – 30 June  
Blaenavon Workmens Hall.  
A film festival with a welsh  
flavour!

## Blaenavon World Heritage Day

30 June 11am – 4pm  
Blaenavon World Heritage  
Centre. Live music and dance.  
Free. Tel (01495) 742333.  
[www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

## Steampunk at the Ironworks

14 – 15 July 10am – 5pm  
Blaenavon Ironworks. Enjoy  
the Steampunk Olympics,  
talks, demonstrations and craft  
stalls. Free. Tel 01495 792615.

## Dawns ar y Mynydd

21 July 11am – 4:30pm  
Market Square Car Park. Dance  
festival and showcase. Free.

## Summer Sundays

22, 29 July, 5, 12 19 August  
2pm – 4pm  
Blaenavon World Heritage  
Centre. Live music in the  
picturesque grounds of  
the World Heritage Centre.  
Enjoy refreshments from the  
Heritage Tearooms. Free entry.  
Tel 01495 742333.

## Defence of Blaenavon

4 – 5 August 10:30am – 4pm  
Blaenavon Ironworks. Enjoy  
living histories, displays and  
music. Free. Tel 01495 792615.

## Recycling Craft Wednesdays

Wednesdays from 1 August – 29  
August 11am – 4pm  
Blaenavon World Heritage  
Centre. Free entry.  
Tel. 01495 742333.

## Bushcraft Sessions

14, 16 & 17 August  
10am – 12pm & 1 – 3pm  
Blaenavon World Heritage  
Centre. Pre-booking required.  
Suitable for ages 7+. Children  
must be accompanied by an  
adult. Tel. 01495 742333.

## Classic Transport Show

26 & 27 August  
Pontypool & Blaenavon  
Railway. [www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Steam Gala

14 – 16 September  
Pontypool & Blaenavon  
Railway. [www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Halloween Ghost Trains

28, 29, 30 & 31 October  
Pontypool & Blaenavon  
Railway. Booking required.  
Fares apply. [www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Santa Specials

Weekends through December.  
Pontypool & Blaenavon  
Railway. Booking required.  
[www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Gŵyl Sul y Tadau

17 Mehefin 11am – 4pm  
Pwll Mawr - Amgueddfa Lofaol  
Cymru Stondinau bwyd a  
diod lleol, arddangosfeydd a  
thrafodaethau. Am ddim.

## Gwyl Ffilmiau Sinema Blaenafon

23 – 30 Mehefin  
Neuadd y Gweithwyr  
Blaenafon Gwyl ffilmiau gyda  
blas ar Gymru!

## Diwrnod Treftadaeth y Byd Blaenafon

30 Mehefin 11am – 4pm  
Canolfan Treftadaeth y Byd  
Blaenafon Cerddoriaeth fyw a  
dawns. Am ddim.  
Ffôn (01495) 742333.  
[www.visitblaenavon.co.uk](http://www.visitblaenavon.co.uk)

## Steampunk yn y Gwaith Haearn

14 – 15 Gorffennaf 10am – 5pm  
Gwaith Haearn Blaenafon  
Mwynhau gemau Olympaidd  
Steampunk, sgysia, arddangosfeydd a stondinau  
crefft. Am ddim.  
Ffôn 01495 792615.

## Dawns ar y Mynydd

21 Gorffennaf 11am – 4:30pm  
Maes Parcio Sgwâr y  
Farchnad Gwyl ddawns a sioe  
arddangos. Am ddim.

## Suliau Haf

22, 29 Gorffennaf, 5, 12 19 Awst  
2pm – 4pm  
Canolfan Treftadaeth y Byd  
Blaenafon Cerddoriaeth  
fyw ar safle godidog  
Canolfan Treftadaeth y Byd.  
Mwynhewch luniaeth yn yr  
Ystafell De. Mynediad am  
ddim. Ffôn 01495 742333.

## Amddiffyniad Blaenafon

4 – 5 Awst 10:30am – 4pm  
Gwaith Haearn Blaenafon  
Mwynhewch hanesion  
byw, arddangosfeydd a  
cherddoriaeth. Am ddim. Ffôn  
01495 792615.

## Crefftiau Ailgylchu Dydd Mercher

Bob dydd Mercher o 1 Awst –  
29 Awst 11am – 4pm  
Canolfan Treftadaeth y Byd  
Blaenafon Mynediad am ddim.  
Ffôn. 01495 742333.

## Sesiynau Crefftiau Byw yn y Gwylt

1pm – 3pm. 14, 16 a 17 Awst  
10am – 12pm  
Canolfan Treftadaeth y Byd  
Blaenafon Angen bwcio  
ymlaen llaw. Addas i 7oed+.  
Rhaid i blant fod yng nghwmni  
oedolion. Ffôn. 01495 742333.

## Sioe Trafnidiaeth Glasurol

26 a 27 Awst  
Rheilffordd Pont-y-pŵl a  
Blaenafon [www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Gala Stêm

14 – 16 Medi  
Rheilffordd Pont-y-pŵl a  
Blaenafon [www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Trenau Sgrech Nodon Calan Gaeaf

28, 29, 30 a 31 Hydref  
Rheilffordd Pont-y-pŵl a  
Blaenafon. Angen bwcio. Codir  
prisiau teithio [www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

## Sesiynau Arbennig i weld Siôn Corn

Ar benwythnosau trwy fis  
Ragfyr. Rheilffordd Pont-y-pŵl  
a Blaenafon. Angen bwcio.  
[www.PBRLY.co.uk](http://www.PBRLY.co.uk)

